
Rhif Ymchwil Cymdeithasol: 32/2025
Dyddiad Cyhoeddi: 3ydd Ebrill 2025

# Arolwg Ymwelwyr Tymor Pontio (Cadw)









Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83715-388-6

Arolwg Ymwelwyr Tymor Pontio Cadw

Anthony Lydall, Strategic Research and Insight

STRATEGIC RESEARCH & INSIGHT

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid dyma o reidrwydd yw safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â
Tîm Ymchwil Cadw
Cadw
Adeilad Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
E-bost: Ymchwil.Cadw@gov.wales

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

ISBN: 978-1-83715-388-6
3 Ebrill 2025
© Hawlfraint y Goron 2025

OGL

Mae’r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0, oni nodir yn wahanol.

## Cynnwys


1. Prif Ganfyddiadau ..... 2
2. Cefndir a Dull ..... 4
3. Pwrpas yr Ymweliad a Demograffeg ..... 6
4. Ymwybyddiaeth ac Archebion Cyn Ymweliad ..... 20
5. Profiad Ymwelwyr ..... 23
6. Goblygiadau i Cadw ..... 50

# 1. Prif Ganfyddiadau

## Boddhad uchel iawn ar draws pob safle

Mae bron pob ymwelydd (90%) yn 'cytuno'n gryf' 'roedd/mae eu 'profiad cyffredinol yn dda'. Mae'r rhan fwyaf (77%) yn 'cytuno'n gryf' bod y safle yn 'werth da am arian'. Mae'r lefel uchel hon o foddhad yn gyson ar draws pob safle.

## Rhagori ar lawer o ddisgwyliadau

Mae tua hanner (51%) o ymwelwyr yr hydref yn disgrifio eu profiad fel 'gwell na'r disgwyl', ac mae bron pob un o'r gweddill (48%) yn ei ddisgrifio fel 'yn ôl y disgwyl'. Mae pob safle'n perfformio'n dda iawn yn erbyn disgwyliadau.

## 'Roeddwn i'n meddwl mai dim ond adfail fyddai'

Mae'r rhesymau cyffredin a roddir dros y profiad yn rhagori ar ddisgwyliadau yn cynnwys bod y castell neu'r abaty yn llawer mwy na'r disgwyl, gall ymwelwyr gael mynediad i fwy o rannau na'r disgwyl (yn enwedig dringo i fyny waliau a thyrau), a'i fod wedi'i gadw'n rhyfeddol o dda ac yn gyflawn. Mae rhai hyd yn oed yn dweud eu bod wedi meddwl y byddai'n adfail. Efallai y bydd angen ailffocysu marchnata Cadw i fynd i'r afael â chanfyddiadau o'r fath.

## Pwy sy'n ymweld yn yr hydref?

Daw 24% o ymwelwyr yr hydref o Gymru, 61% o'r DU y tu allan i Gymru a 15% o dramor. Nid yw'r cyfrannau hyn yn amrywio'n arwyddocaol yn ôl amseriad yr ymweliad (gwyliau hanner tymor / penwythnos yn ystod y tymor / diwrnodau'r wythnos yn ystod y tymor), ac efallai mai un o'r canfyddiadau ymchwil mwyaf syfrdanol yw nad yw'r proffil daearyddol eang hwn yn wahanol iawn i brif dymor yr haf ychwaith.

Mae'r hydref yn denu cyfran uwch (19%) o rai 25 i 34 oed o gymharu â'r haf. Maent yn fwy tebygol o ymweld yn ystod y tymor.

Mae'r hydref hefyd yn denu cyfran uwch (12%) o DE nag yn yr haf (7%). Maent yn fwy tebygol o ymweld ar ddiwrnodau'r wythnos yn ystod y tymor.

Mae prif dymor yr haf yn denu cyfran uwch (27%) o blant o gymharu ag yn ystod y tymor yn yr hydref (15%), er os caiff yr haf ei gymharu â hanner tymor yr hydref, nid yw’r gwahaniaeth yn arwyddocaol.

## Pam maen nhw'n ymweld yn yr hydref?

Efallai fod y tywydd yn wahanol yn yr hydref, ond nid yw'r cymhelliant dros ymweld â safle Cadw yn tueddu i fod yn arwyddocaol wahanol i'r haf. 'Diddordeb mewn cestyll / safleoedd hanesyddol' yw'r prif gymhelliant o hyd, nodwyd gan 58% fel y prif reswm dros ymweld.

Dywed 12% eu bod wedi 'dewis yr adeg hon o'r flwyddyn gan ei bod yn dawelach', er mai dim ond 2% sy'n nodi hyn fel eu prif gymhelliant.

## Diddordeb mewn ap safle Cadw

Mae safbwyntiau ar ap safle Cadw yn rhanedig, ond serch hynny, dywed 47% y byddent yn ystyried defnyddio un.

Ymhlith y rhai sydd â diddordeb, mae nifer o nodweddion a allai fod o ddiddordeb, gan gynnwys canllaw sain (64%), cynnwys am ddim sy’n esbonio’r safle (61%), map a chyfarwyddiadau ar sut i gyrraedd safleoedd eraill Cadw (52%) a chalendrau digwyddiadau (46%).

## Byddai teithiau yn gwneud yr ymweliad yn well

Mae'r tri phrif welliant a awgrymwyd i brofiad ymwelwyr i gyd yn gysylltiedig â theithiau: taith sain (26%), taith dywys gan berson (21%) a theithiau digidol ar eu dyfais eu hunain (17%).

## Gwerthfawrogir dehongli

Os bydd ymweliad yn siomedig, diffyg gwybodaeth fanwl yw’r rheswm mwyaf cyffredin, ond lle darperir dehongli yn ei ffurfiau amrywiol sef canllawiau sain, gwybodaeth ysgrifenedig, fideos, gosodiadau addurniadol, mae’r rhain i gyd yn helpu i ddod â’r safle’n fyw.

# 2. Cefndir a Dull

## Pam mae'r ymchwil hwn wedi'i gomisiynu?

Roedd Cadw yn dymuno deall proffil ei ymwelwyr tymor pontio yr hydref a'u profiad mewn wyth safle prysurach er mwyn llywio marchnata a datblygu cynnyrch yn y dyfodol. Cynhaliodd Cadw arolwg ymwelwyr tymor pontio wyneb yn wyneb ddiwethaf yn ystod gwanwyn 2018. Roedd yr arolwg ymwelwyr wyneb yn wyneb diweddaraf mewn unrhyw dymor yn ystod haf (y prif dymor) 2022. Mae'r adroddiad hwn yn gwneud cymariaethau â'r arolygon blaenorol lle mae'r cwestiynau yr un peth a'r gwahaniaethau'n arwyddocaol.

Comisiynodd Cadw Strategic Research and Insight (SRI), asiantaeth ymchwil annibynnol o Gaerdydd, i gynnal yr ymchwil ar ei ran.

## Sut mae'r ymchwil wedi'i gynnal?

Mae 1,179 o gyfweliadau wedi'u cynnal ag ymwelwyr ag wyth o safleoedd Cadw rhwng 19 Hydref a 6 Rhagfyr 2024 gan ddefnyddio holiadur yn seiliedig yn rhannol ar arolygon blaenorol Cadw ac wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r wybodaeth berthnasol sydd ei hangen nawr. Mae bron pob un (1,172) o'r cyfweliadau wedi'u cynnal ar y safle yn ystod yr ymweliad. Mae'r 7 cyfweliad sy'n weddill wedi'u cynnal ar ôl yr ymweliad dros y ffôn gydag ymwelwyr nad oeddent yn dymuno ateb cwestiynau yn ystod eu hymweliad ond a oedd wedi cydsynio i apwyntiad dilynol ar ôl yr ymweliad.

**Tabl 1: Strwythur sampl fesul safle**

| Safle | Nifer y cyfweliadau |
|---|---|
| Conwy | 252 |
| Caernarfon | 226 |
| Harlech | 145 |
| Cas-gwent | 125 |
| Tyndyrn | 121 |
| Biwmares | 111 |
| Castell Coch | 108 |
| Rhaglan | 91 |
| **Cyfanswm** | **1,179** |

Drwy gydol yr adroddiad, amlygir gwahaniaethau rhwng safleoedd a grwpiau demograffig lle maent yn ystadegol arwyddocaol.

# 3. Pwrpas yr Ymweliad a Demograffeg

## Proffil ymwelwyr hydref 2024

**Tabl 2: Proffil demograffig ymwelwyr yr Hydref**

| Proffil | Cyffredinol | Gwyliau hanner tymor | Penwythnosau yn ystod y tymor | Diwrnodau'r wythnos yn ystod y tymor |
|---|---|---|---|---|
| **Oed** | | | | |
| 0 i 7 | 6% | **9%[1]** | **7%[1]** | **3%[2]** |
| 8 i 15 | 12% | **15%[1]** | **6%[2]** | **13%[1]** |
| 16 i 24 | 8% | 7% | 11% | 7% |
| 25 i 34 | 19% | **12%[2]** | **24%[1]** | **21%[1]** |
| 35 i 44 | 16% | **19%[1]** | **21%[1]** | **9%[2]** |
| 45 i 54 | 12% | 15% | 10% | 11% |
| 55 i 64 | 14% | 11% | 12% | **19%[1]** |
| 65+ | 13% | 12% | 9% | **17%[1]** |
| Sylfaen: | 1,179 | 400 | 365 | 414 |
| **GEG** | | | | |
| AB | 43% | 48% | 45% | **37%[2]** |
| C1 | 30% | 29% | 30% | 31% |
| C2 | 15% | 17% | 13% | 15% |
| DE | 12% | 6% | 12% | **17%[1]** |
| Sylfaen: | 1,054 | 367 | 346 | 341 |
| **Man preswylio** | | | | |
| Cymru | 24% | 23% | 24% | 26% |
| DU y tu allan i Gymru | 61% | **66%[1]** | 61% | **54%[2]** |
| Tramor | 15% | **11%[2]** | 15% | **20%[1]** |
| Sylfaen: | 1,179 | 400 | 365 | 414 |
| **Ethnigrwydd** | | | | |
| Gwyn | 94% | 96% | 92% | 95% |
| Arall | 6% | 4% | 8% | 5% |
| Sylfaen: | 1,167 | 393 | 362 | 412 |

Diffinnir 'gwyliau hanner tymor' yma fel dydd Sadwrn 26ain Hydref i ddydd Sul 3ydd Tachwedd yn gynwysedig. Roedd hon yn wythnos gwyliau ysgol yng Nghymru ac yn y rhan fwyaf o farchnadoedd daearyddol allweddol yn Lloegr, er bod Manceinion yn eithriad nodedig eleni. 1. Mae'r ffigurau a ddangosir yn sefyll allan fel rhai arbennig o uchel. 2. Mae'r ffigurau a ddangosir yn sefyll allan fel rhai arbennig o isel.

## Proffiliau plant gwahanol yn ôl amseru

Yn ystod hanner tymor, mae 24% o ymwelwyr yn blant o dan 16 oed. Mae hyn yn cymharu â 16% ar ddiwrnodau'r wythnos yn ystod y tymor a 13% ar benwythnosau yn ystod y tymor.

## Gwahaniaethau mewn proffiliau oedolion yn ôl amseriad

Yn ystod hanner tymor, nid oedd cynrychiolaeth dda yn y grŵp oedran 25 i 34 (12%) o gymharu â thu allan i hanner tymor (22%).

Ar ddyddiau'r wythnos yn ystod y tymor, mae pobl dros 55 oed yn cael eu cynrychioli'n llawer gwell (36%) nag yn ystod hanner tymor (23%) ac ar benwythnosau yn ystod y tymor (21%).

## Gwahaniaethau mewn GEG

Mae Cadw wedi wynebu her hirdymor o ddenu mwy o'r grwpiau economaidd gymdeithasol is i'w safleoedd. Fodd bynnag, mae'n llwyddo i ddenu 17% o DE ar ddiwrnodau'r wythnos yn ystod y tymor.

## Gwahaniaethau o ran mannau preswylio

Yn ystod gwyliau hanner tymor gwelir y gyfran uchaf (66%) o ymwelwyr o’r tu allan i Gymru o’r DU, ond mae cyfran yr ymwelwyr tramor (11%) yn is nag yn ystod y tymor.

## Tabl 3: Cymharu demograffeg â blynyddoedd blaenorol

| Proffil | Tymor pontio 2024 | Prif dymor 2022 | Tymor pontio 2018 |
|---|---|---|---|
| **Oed** | | | |
| 0 i 7 | 6%[2] | 10% | Nid yw ffigurau tymor pontio 2018 ar gyfer oedran yn gymaradwy |
| 8 i 15 | 12%[2] | 17% | |
| 16 i 24 | 8% | 8% | |
| 25 i 34 | 19%[1] | 10% | |
| 35 i 44 | 16% | 17% | |
| 45 i 54 | 12% | 14% | |
| 55 i 64 | 14% | 11% | |
| 65+ | 13% | 13% | |
| Sylfaen: | 1,179 | 2,040 | |
| **GEG** | | | |
| AB | 43% | 46% | 44% |
| C1 | 30% | 33% | 37% |
| C2 | 15% | 14% | 13% |
| DE | 12%[1] | 7% | 6% |
| Sylfaen: | 1,054 | 2,001 | 1,474 |
| **Man preswylio** | | | |
| Cymru | 24% | 22% | 33% |
| DU y tu allan i Gymru | 61% | 63% | 54% |
| Tramor | 15% | 15% | 13% |
| Sylfaen: | 1,179 | 2,048 | 1,495 |
| **Ethnigrwydd** | | | |
| Gwyn | 94% | 97% | 95% |
| Arall | 6% | 3% | 5% |
| Sylfaen: | 1,167 | 2,039 | 1,493 |

Mae canrannau wedi'u hail seilio i eithrio ymatebwyr oedd yn gwrthod ateb. Nid oes modd cymharu'r proffil oedran o dymor pontio 2018 â'r arolygon eraill oherwydd dim ond y sawl a gwblhaodd yr arolwg y gofynnwyd iddynt am oedran, yn hytrach na phob aelod o'u parti. 1. Mae'r ffigurau a ddangosir yn sefyll allan fel rhai arbennig o uchel. 2. Mae'r ffigurau a ddangosir yn sefyll allan fel rhai arbennig o isel.

## Dim gwahaniaethau arwyddocaol mewn tarddiad daearyddol eang

Daw 24% o ymwelwyr yr hydref o Gymru, 61% o'r DU y tu allan i Gymru a 15% o dramor. Efallai mai un o'r canfyddiadau ymchwil mwyaf syfrdanol yw nad yw'r proffil daearyddol eang hwn yn wahanol iawn i brif dymor yr haf.

## Rhai gwahaniaethau mewn proffil oedran

Mae prif dymor yr haf yn denu cyfran uwch (27%) o blant o gymharu ag yn ystod y tymor yn yr hydref (15%), er os caiff yr haf ei gymharu â hanner tymor yr hydref, nid yw'r gwahaniaeth yn arwyddocaol.

Mae'r hydref yn denu cyfran uwch (19%) o rai 25 i 34 oed o gymharu â'r haf. Fel y trafodwyd, maent yn fwy tebygol o ymweld yn ystod y tymor.

Mae'r hydref yn denu cyfran uwch (12%) o DE nag yn yr haf (7%). Maent yn fwy tebygol o ymweld ar ddiwrnodau'r wythnos yn ystod y tymor.

**Tabl 4: Cymharu ymwelwyr â data'r cyfrifiad**

| Proffil | Sampl ymwelwyr tymor pontio Cadw 2024, ymwelwyr Cymru a Lloegr | Poblogaeth Cymru a Lloegr, data cyfrifiad |
|---|---|---|
| **Oed** | | |
| 0 i 7 | 7% | 9% |
| 8 i 15 | 13% | 10% |
| 16 i 24 | 8% | 10% |
| 25 i 34 | **17%**[1] | 13% |
| 35 i 44 | **17%**[1] | 13% |
| 45 i 54 | 12% | 13% |
| 55 i 64 | 14% | 13% |
| 65+ | **12%**[2] | 19% |
| Sylfaen: | 999 | 59,597,500 |
| **Ethnigrwydd** | | |
| Gwyn | 95% | 85% |
| Arall | 5% | 15% |

| | | |
|---|---|---|
| Sylfaen: | 989 | 58,381,000 |

1. Mae'r ffigurau a ddangosir yn sefyll allan fel rhai arbennig o uchel. 2. Mae'r ffigurau a ddangosir yn sefyll allan fel rhai arbennig o isel.

## Proffil oedran

Mae proffil ymwelwyr Cadw sy'n blant yn yr hydref yn weddol debyg i boblogaeth Cymru a Lloegr. Mae cynrychiolaeth well o bobl 25 i 44 na'r boblogaeth, ond mae pobl dros 65 oed yn cael eu tangynrychioli. Yn ddiweddarach byddwn yn trafod effaith gwelliannau hygyrchedd, a lle mae hygyrchedd yn ddiffygiol, gan y gall hyn fod yn broblem sylweddol i bobl dros 65 oed.


## Mae grwpiau ethnig heb fod yn wyn wedi'u tangynrychioli'n fawr

Mae grwpiau ethnig heb fod yn wyn yn cyfrif am 15% o boblogaeth Cymru a Lloegr, ond dim ond 5% o broffil ymwelwyr hydref Cadw o Gymru a Lloegr.


## Cynrychiolaeth AB cryf iawn, ond diffyg C2DE

Nid yw'r Cyfrifiad yn mesur statws economaidd gymdeithasol yn yr un ffordd ag yn ein hymchwil, ac felly ni ellir cymharu ffigurau'n uniongyrchol. Fodd bynnag, mae amcangyfrifon gan arbenigwyr cylchrannu yn gosod cyfran 'AB' o boblogaeth y DU ar tua chwarter, sy'n golygu bod proffil Cymru a Lloegr Cadw (41%) yn llawer uwch na hynny. Ar yr un pryd, amcangyfrifir bod cyfran 'C2DE' o'r boblogaeth tua 40 i 45%, sy'n gwneud proffil Cadw y gylchran hon (29%) yn arwyddocaol is, er ei fod yn uwch nag yn haf 2022 (21%).

# Map o darddiad ymwelwyr (Cymru a Lloegr), hanner tymor




## Map o darddiad ymwelwyr (Cymru a Lloegr), yn ystod y tymor (gan gynnwys penwythnosau)




Ar wahân i'r ffaith bod mwy o ymwelwyr yn ystod y tymor nag ymwelwyr hanner tymor yn y sampl, nid yw'r dosbarthiad cymharol yn ôl tarddiad daearyddol rhwng dau amseriad yr ymweliadau yn edrych yn arwyddocaol wahanol.

## Prif bwrpas yr ymweliad

**Ffigur 1: C1 "Beth yw prif bwrpas eich ymweliad i'r dref/ardal yma heddiw?"**




## Rhaniad yn y canlyniadau rhwng De Ddwyrain (DDd) Cymru a Gogledd Orllewin (GO) Cymru

Mae safleoedd Cadw yn Ne Ddwyrain Cymru yn denu cymysgedd cytbwys o ymwelwyr ar daith undydd o gartref a phobl ar eu gwyliau.

Fel y dangoswyd mewn arolygon ymwelwyr blaenorol gan Cadw, safleoedd Gogledd Orllewin Cymru, sydd mewn cyrchfannau gwyliau poblogaidd neu'n agos atynt, sy'n denu'r rhan fwyaf o'u hymweliadau o arosiadau dros nos. Nid yw eu cyfran o ymwelwyr dros nos mor uchel ag yn yr haf (pan mae fel arfer tua 90%), ond serch hynny, mae llawer o ymwelwyr o gwmpas yn yr hydref o hyd.


Mae safleoedd De Ddwyrain Cymru yn parhau i ddenu cymysgedd mwy cytbwys o ymwelwyr dydd a dros nos, fel sydd hefyd yn wir yn yr haf.

## Gwahaniaethau yn ôl amseriad yr ymweliad

Mae rhywfaint o wahaniaeth yn y canlyniadau rhwng ymwelwyr hanner tymor ac ymwelwyr yn ystod y tymor, er bod mwyafrif yr ymwelwyr yn y ddau achos ar eu gwyliau: 67% yn ystod hanner tymor o gymharu â 59% yn ystod y tymor.

## Pellter a deithiwyd ar y diwrnod

**Ffigur 2: C5 "Ac o le arhosoch chi neithiwr, pa mor bell deithioch chi heddiw i'r safle hwn?"**




Mae 'Ddim yn gwybod' wedi'i eithrio o'r canlyniadau

## Mae ymwelwyr dydd o gartref yn teithio ychydig ymhellach ar gyfartaledd


Mae mwy o ymwelwyr dros nos yn teithio 10 milltir neu lai ar y diwrnod nag ymwelwyr dydd. Dywed rhai eu bod yn gweld y castell wrth fynd heibio, neu maent yn chwilio ar y rhyngrwyd am bethau i'w gwneud yn yr ardal lle maent yn aros (gweler hefyd C11 yn ddiweddarach).

Mae'r gyfran uchaf (56%) o ymwelwyr sy'n teithio 10 milltir neu lai i'w gweld yng Nghastell Coch, sy'n agos iawn at Gaerdydd. Mae gan Fiwmares hefyd gyfran gymharol uchel (46%) o ymwelwyr yn teithio 10 milltir neu lai ar y diwrnod. Ar ben arall y raddfa, mae 19% o ymwelwyr â Harlech a 24% o ymwelwyr â Rhaglan yn teithio 10 milltir neu lai.

Mae dau o bob pump (40%) o ymwelwyr hanner tymor yn teithio 10 milltir neu lai, o gymharu â chyfran is (30%) o'r rhai sy'n ymweld y tu allan i'r hanner tymor.

## Math y parti

**Ffigur 3: C6 "Gyda phwy ydych chi yma heddiw?"**





## Cyfran llawer is o deuluoedd â phlant yn nhymor pontio yr hydref

Mae chwarter (25%) o bartïon ymweld yn yr hydref yn cynnwys plant sy'n llawer is nag yn yr haf (46%). Os na chaiff hanner tymor yr hydref ei gynnwys, mae 17% o bartïon ymweld yr hydref yn cynnwys plant.

Nid yw gwahaniaethau fesul safle yn arwyddocaol pan fydd amseriad sifftiau cyfweliad (yn ystod / tu allan i hanner tymor ysgol) yn cael ei ystyried.

## Ymwelwyr newydd / cyn ymwelwyr / ymwelwyr blaenorol

### Ffigur 4: C8 "Ydych chi wedi ymweld â'r safle hwn o'r blaen?"




## Dwy ran o dair yn ymwelwyr newydd

Roedd dwy ran o dair (66%) o'r ymwelwyr yn y sampl yn newydd i'r safle ar adeg y cyfweliad, yr un gyfran ag yn arolwg haf 2022. Roedd y rhan fwyaf o'r gweddill (22%) wedi ymweld o'r blaen, ond nid yn ystod y tair blynedd diwethaf, gan adael dim ond 12% yn ail ymwelwyr (o fewn y tair blynedd diwethaf).


Mae gan Gaernarfon a Chonwy ill dau gyfran uchel (72%) o ymwelwyr newydd, mae'r ddau safle mewn ardaloedd gwyliau poblogaidd.

Mae ymwelwyr o'r tu allan i Gymru yn fwy tebygol o fod yn newydd, ond nid yn llwyr. Mae 30% o ymwelwyr o'r DU (o'r tu allan i Gymru) a 12% o ymwelwyr tramor naill ai'n ailymweld (wedi ymweld o fewn y tair blynedd diwethaf) neu'n gyn ymwelwyr (heb ymweld o fewn y tair blynedd diwethaf). Roedd canfyddiadau arolwg haf 2022 yn debyg iawn.

Nid oes unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn ôl ymwelwyr hanner tymor / ar y penwythnos yn ystod y tymor / ar ddiwrnodau'r wythnos yn ystod y tymor.

## Cymhelliant i ymweld

**Ffigur 5: C9 "Pa rai o'r ffactorau hyn fyddech chi'n dweud dylanwadodd ar eich penderfyniad i ymweld heddiw?/ a pha un oedd bwysicaf... ?"**




## Nid yw cymhelliant yn wahanol iawn i'r haf

Efallai fod y tywydd yn wahanol yn yr hydref, ond nid yw'r cymhelliant dros ymweld â safle Cadw yn tueddu i fod yn arwyddocaol wahanol i'r haf. 'Diddordeb mewn cestyll / safleoedd hanesyddol' yw'r prif gymhelliant o hyd.

Dywed rhai (16%) eu bod eisiau diwrnod allan mewn tywydd da, tra bod eraill yn ceisio lloches yn y castell i ddianc rhag glaw yr hydref.

Dywed 12% eu bod wedi 'dewis yr adeg hon o'r flwyddyn gan ei bod yn dawelach', er mai dim ond 2% sy'n nodi hyn fel eu prif gymhelliant.

> "Nid yw'n llawn pobl na phlant yn sgrechian"
> Cwpl, Canolbarth Lloegr, Tyndyrn

"Dim torfeydd, gallwch chi gymryd eich amser a mwynhau'r awyrgylch a'r tawelwch i fyfyrio. Dim Instagramwyr."
Cwpl, Awstralia, Cas-gwent

## Gwahaniaethau yn ôl safle

Mae rhai gwahaniaethau arwyddocaol fesul safle. Mae 'diddordeb penodol mewn cestyll / safleoedd hanesyddol' yn amlwg fel y prif ffactor ym mhob safle, ond mae rhai gwahaniaethau fesul safle â ffactorau eraill:

- Mae 'diddordeb yn niwylliant / hanes Cymru' yn fwy amlwg yn y cestyll yng Ngogledd Orllewin Cymru, lle mae 11% yn rhoi hyn fel eu prif gymhelliant, o gymharu â 4% mewn safleoedd yn Ne Ddwyrain Cymru
- Mae Castell Coch yn sefyll allan fel un 'eiconig', gyda 13% o'i ymwelwyr yn nodi eu prif gymhelliant fel 'eisiau ymweld â lle eiconig'
- Mae'r prif gymhelliant yn Nhyndyrn yn amrywio mwy nag ar safleoedd eraill, gyda 'treulio amser gyda ffrindiau a theulu' (19%) ac 'eisiau dysgu mwy am y safle hwn' (17%) hefyd yn cael ei nodi fel y prif ffactor

## Gwahaniaethau yn ôl amseriad yr ymweliad


Nid yw gwahaniaethau yn ôl hanner tymor / penwythnosau yn ystod y tymor / diwrnodau'r wythnos yn ystod y tymor yn amrywio'n arwyddocaol ar y cyfan, er yn ystod hanner tymor, mae 7% o ymwelwyr â phlant yn nodi eu bod 'eisiau profiad rhyngweithiol i blant' fel eu prif gymhelliant, o gymharu â 2% o ymwelwyr yn ystod y tymor.

## Gwahaniaethau yn ôl tarddiad ymwelwyr

'Diddordeb mewn cestyll / safleoedd hanesyddol' yw'r prif ffactor ar gyfer 62% o ymwelwyr tramor a 62% o ymwelwyr o'r DU, ond cyfran is (46%) o ymwelwyr o Gymru. Mae hwn yn ganfyddiad tebyg i arolwg haf 2022.

## Profiad dymunol i blant

**Ffigur 6: C10 (Teuluoedd gyda plant) "... pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau y profiad rydych chi'n gobeithio ei gael?"**




Dim ond i deuluoedd sy'n ymweld â phlant y gofynnwyd C10

## Llawer mwy o bwyslais ar ddysgu nag yn yr haf

I ddwy ran o dair (66%) o ymwelwyr yr hydref â phlant, mae'r pwyslais yn fwy ar ddysgu na hwyl. Mae hyn yn llawer uwch nag yn arolwg haf 2022, a ganfu fod dysgu yn flaenoriaeth i 39% o deuluoedd.

Mae maint y sampl yn isel i gymharu'n ddibynadwy yn ôl safleoedd unigol. Nid yw amseriad yr ymweliad yn effeithio'n arwyddocaol ar gydbwysedd cymhelliant. Nid yw'r canlyniadau'n amrywio'n arwyddocaol yn ôl a yw'r plant yn hŷn neu'n iau.


> "Doedden ni ddim yn gwybod beth i'w ddisgwyl ond roedd pethau rhyngweithiol y plant yn wych"
> Teulu gyda phlant ifanc, De ddwyrain Lloegr, Cas-gwent

> "Fel arfer nid yw'r plant yn hoffi safleoedd hanesyddol ond roedden nhw'n hoffi cropian yn y twnnel carthffosiaeth"
> Teulu gyda phlant ifanc, Llundain, Tyndyrn

# 4. Ymwybyddiaeth ac Archebion Cyn Ymweliad

## Ffynonellau ymwybyddiaeth

**Ffigur 7: C11 "A allwch ddweud wrthyf sut y daethoch i wybod am yr atyniad hwn cyn ymweld?" (wedi'i annog)**




## Canfyddiadau tebyg i arolygon blaenorol

Fel y canfuwyd mewn arolygon blaenorol, dim ond lleiafrif o ymatebwyr all enwi ffynonellau marchnata penodol megis taflenni Cadw neu'r wefan. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu nad yw ffynonellau o'r fath yn chwarae rhan bwysig, oherwydd mae'n rhaid i ymwybyddiaeth trwy 'lafar gwlad' ac 'ymweliadau blaenorol' darddu o rywbeth.

Mae’r cyfrannau sy’n nodi ‘gwefan Cadw’ ar eu huchaf yn:

- Tyndyrn (20%)
- Biwmares (14%)


Mae'r gyfran sy'n nodi 'Taflen ar gyfer yr atyniad hwn' ar ei huchaf yn Harlech (8%). Harlech hefyd sydd â'r gyfran uchaf (6%) a atebodd 'Cyfryngau cymdeithasol ar gyfer yr atyniad hwn'.

Mae 'gwefan arall' fel arfer yn golygu chwiliad Google. Fel arfer nid yw ymwelwyr yn cofio ar ba safle y maent yn y pen draw.

> “Wedi Gwglo cestyll yn yr ardal”
> Teulu a ffrindiau, De Ddwyrain Cymru, Rhaglan

## Ymwybyddiaeth o Cadw

**Ffigur 8: C28 "Ydych chi wedi clywed am Cadw cyn dechrau'r cyfweliad hwn a chyrraedd yma heddiw?"**




## Yn bennaf y rhai nad ydynt yn aelodau yn ymweld

Mae 10% o ymwelwyr yn yr hydref yn aelodau o Cadw, yn debyg i haf 2022 (8%).

Mae cyfle i ddenu mwy o ymwelwyr i aelodaeth Cadw, gan nad yw'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n ymwybodol o Cadw yn aelodau. Mae hyn yn cynnwys tua hanner yr ymwelwyr sy'n ymweld â safle'r cyfweliad dro ar ôl tro.


Mae lle hefyd i godi ymwybyddiaeth o Cadw, gan nad oedd bron i hanner yr ymwelwyr wedi clywed am Cadw cyn y cyfweliad. Mae hyn yn cynnwys 15% o drigolion Cymru.

## Gwahaniaethau yn ôl math o barti

Mae aelodaeth Cadw ar ei huchaf (16%) ymhlith teuluoedd â phlant ifanc.

## Archebu ar lein

**Ffigur 9: C12 "A wnaethoch archebu ar lein cyn eich ymweliad heddiw, ac os na, a fyddech yn ystyried gwneud hynny pe baech yn ymweld ag un o atyniadau Cadw eto?"**




## Nid yw'r rhan fwyaf o ymwelwyr tymor pontio yn archebu ar lein ar hyn o bryd

Mae C12 yn gwestiwn newydd. Dim ond lleiafrif (7%) o ymwelwyr sy'n archebu ar lein, ond dywed llawer (51%) o'r gweddill y byddent yn ei ystyried y tro nesaf.


Mae'r gyfran sy'n archebu ar lein uchaf yng Nghonwy (12%) ac yn amlwg o is yn Harlech (3%), Tyndyrn (3%) a Rhaglan (2%). Mae archebu ar lein hefyd yn uwch ymhlith teuluoedd â phlant ifanc (10%). Nid oes gwahaniaeth yn ôl amseriad yr ymweliad.

# 5. Profiad Ymwelwyr

## Agweddau profiad wedi'u graddio

## Pob safle wedi'u cyfuno

**Ffigur 10: C13 "I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â phob un o'r agweddau canlynol ar eich ymweliad â'r atyniad hwn?"**




Mae atebion 'amherthnasol' wedi'u hepgor ac mae'r canrannau wedi'u hail seilio

## Lefelau uchel iawn o foddhad

Mae safleoedd Cadw yn cael eu graddio'n uchel iawn mewn sawl ffordd, yn enwedig cyfeillgarwch y staff a glendid y safleoedd. Mae'r graddfeydd uchel iawn yn gyson ar draws yr holl fathau o ymwelwyr ac amseriad yr ymweliad.

> "Fe wnaeth fy syfrdanu mewn gwirionedd"
> Cwpl, Seland Newydd, Tyndyrn

> "Rydw i wedi aros am amser hir i ddod yma ac mae hyn yn hollol berffaith"
> Cwpl, De Ddwyrain Lloegr, Tyndyrn

> "Rwy'n sylwi ar rywbeth gwahanol bob tro rwy'n dod"
> Grŵp o ffrindiau, De Ddwyrain Cymru, Rhaglan

## Graddfeydd yn ôl safle

Os caiff atebion eu trosi i raddfa sgorio 5 pwynt ('cytuno'n gryf' = 5, 'cytuno' = 4 ac ati), mae'r tabl canlynol yn dangos sut mae'r gwahanol safleoedd yn cymharu ar bob agwedd:

**Tabl 5: Agweddau ar bob safle ar raddfa 5 pwynt**


| Safle | Cyffredinol | Gwerth am arian | Cyfeillgarwch y staff | Glendid | Addasrwydd i blant | Gwybodaeth am y safle ar gael ymlaen llaw | Diogelwch |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Biwmares | 4.7[2] | 4.6 | 4.9 | 4.9 | 4.8 | 4.4 | 4.6 |
| Caernarfon | 5.0 | 4.9[1] | 5.0 | 5.0 | 4.7 | 4.8[1] | 4.7 |
| Castell Coch | 4.9 | 4.7 | 5.0 | 4.9 | 4.6 | 4.8[1] | 4.8 |
| Cas-gwent | 4.9 | 4.6 | 5.0 | 4.9 | 4.8 | 4.3[2] | 4.6 |
| Conwy | 4.8 | 4.7 | 4.9 | 4.8 | 4.7 | 4.5 | 4.6 |
| Harlech | 4.9 | 4.7 | 4.9 | 4.9 | 4.4[2] | 4.7 | 4.6 |
| Rhaglan | 4.9 | 4.5 | 4.9 | 5.0 | 4.9 | 4.5 | 4.7 |
| Tyndyrn | 4.9 | 4.6 | 4.9 | 5.0 | 4.8 | 4.5 | 4.9 |
| **Cyffredinol** | **4.9** | **4.7** | **4.9** | **4.9** | **4.7** | **4.6** | **4.7** |

1. Mae'r ffigurau a ddangosir yn arbennig o uwch na'r cyfartaledd ar gyfer yr agwedd profiad honno.
2. Mae'r ffigurau a ddangosir yn arbennig o is na'r cyfartaledd.

Rydym yn archwilio profiadau fesul safle yn fanylach o dan C23 isod.

## Profiadau o gymharu â disgwyliadau

**Ffigur 11: C23 "Sut mae eich profiad yma heddiw yn cymharu â'ch disgwyliadau blaenorol?"**





## Mae ymweliadau â safleoedd Cadw yn perfformio'n dda iawn o gymharu â disgwyliadau blaenorol

Ar y cyfan, mae tua hanner (51%) o ymwelwyr yr hydref yn disgrifio eu profiad fel 'gwell na'r disgwyl', ac mae bron pob un o'r gweddill (48%) yn ei ddisgrifio fel 'yn ôl y disgwyl'. Mae Caernarfon yn sefyll allan fel un sy'n perfformio'n arbennig o dda am ragori ar ddisgwyliadau.

Mae'r atebion yn amrywio'n arwyddocaol yn ôl ymwelwyr newydd / cyn ymwelwyr / ail ymwelwyr. Mae 58% o ymwelwyr newydd a 42% o gyn ymwelwyr wedi ateb 'yn well na'r disgwyl'. Mae hyn yn cymharu â 27% o ail ymwelwyr, sy'n gwybod yn gyffredinol beth i'w ddisgwyl. Nid yw'r atebion yn amrywio'n arwyddocaol yn ôl y math o barti. Mae’r siart isod yn dangos atebion a roddwyd gan ymwelwyr newydd:

**Ffigur 12: C23 (Ymwelwyr newydd) "Sut mae eich profiad yma heddiw yn cymharu â'ch disgwyliadau blaenorol?"**




# Rhesymau dros brofiadau cadarnhaol, yn gyffredinol

Yn gyntaf trafodwn brofiadau cadarnhaol cyffredin a geir yn gyffredinol ar draws llawer o safleoedd cyn trafod themâu sy'n benodol i un safle.

# 'Doeddwn i ddim yn meddwl y byddai mor fawr â hyn'

Un o'r rhesymau mwyaf cyffredin pam mae profiad yr ymweliad yn rhagori ar y disgwyl yw bod y castell neu'r abaty yn llawer mwy na'r disgwyl. Mewn rhai achosion, daw'r disgwyl o edrych ar luniau, ac i gestyll fel Biwmares a Chas gwent, mae'r gwir faint yn dwyllodrus o'r tu allan.

> "Doeddwn i ddim yn meddwl ei fod mor fawr â hyn ar ôl pasio ar y trên"
> Grŵp o ffrindiau, De Ddwyrain Cymru, Rhaglan

> "Dydych chi ddim yn cael llawer o luniau ar wefan Cadw. Mae'n fwy mewn bywyd go iawn."
> Teulu gyda phlant hŷn, Canolbarth Lloegr, Rhaglan

> "Mae'n fwy nag oeddwn i'n meddwl. Mae'n dwyllodrus o'r tu allan."
> Teulu gyda phlant ifanc, Gogledd Orllewin Lloegr, Biwmares

> "Mae'r castell yn llawer mwy nag yr oeddwn wedi dychmygu. Ni roddodd y lluniau a welais ar lein ymdeimlad o raddfa i mi."
> Teulu gyda phlant hŷn, UDA, Cas-gwent

## Yn fwy cyflawn / cadwedig ac yn fwy agored i ymwelwyr na'r disgwyl

Rheswm cyffredin arall dros brofiadau ymweliad sy'n rhagori ar ddisgwyliadau yw nad oeddent yn sylweddoli y byddai'r castell na'r abaty mor gyfan ac wedi'i gadw mor dda. Mae rhai hyd yn oed yn dweud eu bod yn meddwl mai 'dim ond adfail' fyddai. Mae rhai hefyd yn synnu at faint o'r safle y caniateir iddynt gael mynediad iddo.

> "Roeddwn i'n meddwl mai dim ond adfail fyddai"
> Ymwelydd unigol, Gogledd Orllewin Lloegr, Conwy

> "Mewn cyflwr llawer gwell na'r disgwyl"
> Teulu gyda phlant ifanc, De Ddwyrain Cymru, Castell Coch

> "Lle ysblennydd. Yr hyn a adeiladwyd ganddynt yr holl flynyddoedd yn ôl, mae'n anhygoel ei gadw'n dda."
> Grŵp o ffrindiau, Canolbarth Lloegr, Caernarfon

> "Doeddwn i ddim yn disgwyl mynd i mewn ac o gwmpas y top"
> Grŵp o ffrindiau, Gogledd Orllewin Lloegr, Biwmares

> "Gallwch chi gerdded o gwmpas y top ... methu yn y gorffennol."
> Cwpl, Canolbarth Lloegr, Harlech

## Dringo'n uchel a mwynhau'r golygfeydd

Mae llawer o ymwelwyr wir yn mwynhau dringo i fyny tyrau'r castell a cherdded ar hyd y waliau. Gall y golygfeydd o ben llawer o gestyll fod yn ysblennydd.

> "Mae'r golygfeydd o'r tŵr olaf yn hollol syfrdanol"
> Ymwelydd unigol, De ddwyrain Lloegr, Cas-gwent

> "Y rhan fwyaf pleserus oedd topiau'r tyrau a'r golygfeydd godidog"
> Ymwelydd unigol, Gogledd Orllewin Lloegr, Conwy

## Mae dehongli yn dod â'r safle'n fyw

Gwneir llawer o sylwadau am y dehongli, boed yn sain, yn weledol, yn ysgrifenedig neu'n addurniadol. Mae llawer o ymwelwyr yn mwynhau dysgu am hanes y safle wrth iddynt geisio dychmygu sut fyddai bywyd wedi bod.

“Mae yna fwy o wybodaeth nag mewn atyniadau eraill rydyn ni wedi bod iddyn nhw fel y Baddonau Rhufeinig ac abatai eraill yn Lloegr”
Cwpl, Swydd Efrog, Tyndyrn


“Y rhan fwyaf pleserus yw ei ddychmygu yn y canol oesoedd”
Teulu gyda phlant hŷn, Gogledd Cymru, Conwy

## Biwmares

## Wedi'u cyffroi gan y blociau adeiladu

Mae rhai ymwelwyr â Biwmares wedi'u synnu ar yr ochr orau i ddarganfod bod mwy i ddifyrru plant na'r disgwyl, yn enwedig blociau adeiladu'r castell. Mae ein hymchwil arsylwadol diweddar yn dangos bod rhai tadau hefyd yn mwynhau chwarae gyda'r blociau.

“Adloniant am hirach gyda'r blociau”
Teulu gyda phlant ifanc, Gogledd Cymru, Biwmares






Blociau chwarae'r castell a gofod clyweled ym Miwmares

## Atsain y capel

Mae rhai ymwelwyr yn hoffi'r atsain maen nhw'n ei brofi yn y capel.

“Fe wnaethon ni fwynhau atsain y capel fwyaf”
Cwpl, Canolbarth Lloegr, Biwmares

# Caernarfon

## Amgueddfa

Mae safle Caernarfon yn cynnwys amgueddfa, a dyma'r rhan fwyaf pleserus i rai ymwelwyr.

> “Yr amgueddfa yw’r rhan orau, lle ffantastig”
> Teulu o oedolion, Swydd Efrog, Caernarfon

## To Porth y Brenin

Mae llawer o fuddsoddiad wedi’i wneud i ddatblygu to Porth y Brenin, ac mae hyn yn cael ei werthfawrogi’n fawr.

> “Doedden ni ddim wedi bod lan i’r to o’r blaen oherwydd ei fod ar gau, felly roedd heddiw yn ysblennydd”
> Teulu gyda phlant ifanc, Gogledd Orllewin Lloegr, Caernarfon

> “Roedd y lifft yn syrpreis pleserus, felly mae gallu dod i’r brig yn wych”
> Cwpl, Canolbarth Lloegr, Caernarfon




To Porth y Brenin yng Nghaernarfon

# Castell Coch

## Addurno hyfryd yn yr ystafelloedd


Mae llawer o ymwelwyr â Chastell Coch yn cael eu denu gan yr addurno yn yr ystafelloedd. Maen nhw'n hoffi gweld y nenfydau addurnedig, y dodrefn o'r cyfnod a'r gwisgoedd, mae hyn oll yn eu helpu i ddychmygu bywyd i'r bobl oedd yn byw yno.

> "Mae'r ystafelloedd wedi'u dodrefnu'n llawn, eithriadol"
> Cwpl, De Ddwyrain Cymru, Castell Coch

> "Mae e'n hollol wahanol i'r hyn roeddwn i'n ei ddisgwyl. Mae'r paentiadau a'r ffenestri gwydr yn syfrdanol."
> Cwpl, De Orllewin Cymru, Castell Coch

> "Mae'r parlwr yn tynnu'ch anadl i ffwrdd"
> Cwpl, De Ddwyrain Lloegr, Castell Coch






Ystafell wely Y Foneddiges Bute yng Nghastell Coch

## Stori tylwyth teg o'r tu allan

Buom yn trafod yn gynharach fod Castell Coch yn sefyll allan fel lle 'eiconig' i ymweld ag ef o'i gymharu â chestyll eraill. Ei ymddangosiad 'stori tylwyth teg' o'r tu allan yw'r prif reswm. Ar hyn o bryd mae sgaffaldiau o amgylch un o'r tyrau ond mae rhai ymwelwyr yn hoffi'r gwaith celf o amgylch y sgaffaldiau.

> "Dydyn ni erioed wedi gweld unrhyw beth fel hyn o'r blaen. Yr unig beth sy'n fy atgoffa o hyn yw palas yn Sbaen ond does dim byd arall fel hyn yn y DU"
> Grŵp o ffrindiau, De Ddwyrain Lloegr, Castell Coch

> "Mae'n edrych fel castell tylwyth teg"
> Cwpl, De Orllewin Lloegr, Castell Coch

## Cas-gwent

## Mae ymdrech wedi ei wneud i blant

Mae ymwelwyr â Chas-gwent yn cydnabod bod Cadw wedi buddsoddi yn y profiad i blant drwy ddarparu llwybr gyda gemau. Mae sylwadau bod y safle wedi'i wella ers ymweliadau blaenorol.

> “Gweithgareddau i blant, gallwch weld eu bod wedi gwneud ymdrech wirioneddol”
> Cwpl, De Orllewin Lloegr, Cas-gwent

> “Y rhan orau oedd gweithgareddau’r plant,  heb gael y rhain y tro diwethaf”
> Teulu gyda phlant ifanc, De Orllewin Lloegr, Cas-gwent




Rhan o'r cyrch plant yng Nghas gwent

## Conwy

## Tebyg i safleoedd eraill

Mae sylwadau cadarnhaol am Gonwy yn gyson â safleoedd eraill, hy mae rhai ymwelwyr yn synnu i weld ei fod yn fwy ac yn fwy cyflawn na'r disgwyl. Maent yn mwynhau cael mynediad i bob rhan ac edmygu'r golygfeydd pan fyddant i fyny'n uchel.

> "Mae'n gastell cyfan!"
> Cwpl, Swydd Efrog, Conwy

> "Muriau mewn cyflwr da, profiad anhygoel i gerdded y waliau"
> Teulu gyda phlant ifanc, Dwyrain Lloegr, Conwy



Barbican Dwyreiniol yng Nghastell Conwy

## Harlech

## Rhai nodweddion unigryw

Mae ymwelwyr â Harlech yn mwynhau'r bont hygyrch a maes chwarae'r plant. Mae hefyd yn un o'r ychydig o safleoedd Cadw sydd â chaffi, ac mae hyn yn ychwanegu at y profiad i lawer.

> "Mae gwelliannau i'r safle wedi ei wneud yn llawer gwell, caru'r bont newydd"
> Grŵp o deulu a ffrindiau, De Ddwyrain Cymru, Harlech

> "Mae'r maes chwarae i blant yn fonws ychwanegol"
> Teulu gyda phlant ifanc, De Orllewin Cymru, Harlech



Caffi a phont yn Harlech

## Rhaglan

## Llwybrau plant

Mae Rhaglan wedi gwneud ymdrech i apelio at blant. Mae'r llwybr ysbrydion Calan Gaeaf yn arbennig wedi bod yn boblogaidd.

> “Roedd y llwybr ysbrydion yn wych”
> Teulu gyda phlant iau a hŷn, De ddwyrain Cymru, Rhaglan



Golwg o’r porthdy o'r fynedfa i Raglan

# Tyndyrn

## Gwell dehongli

Mae llawer o fuddsoddiad diweddar mewn dehongli yn Nhyndyrn, y dangosodd arolygon ymwelwyr blaenorol ei fod yn ddiffygiol.

> “Mae’r byrddau gwybodaeth yn ddefnyddiol iawn wrth egluro’r darnau o waith maen”
> Ymwelydd unigol, De ddwyrain Lloegr, Tyndyrn



Man arddangos i ymwelwyr yn Nhyndyrn

## Yr agweddau lleiaf pleserus o'r ymweliad yn gyffredinol

Yn gyntaf trafodwn siomedigaethau cyffredin a geir yn gyffredinol ar draws llawer o safleoedd cyn trafod themâu sy'n benodol i un safle.

## Mae rhai dal eisiau mwy o ddehongli

Nid oes llawer o ymwelwyr yn cael eu siomi gan eu profiad yn safleoedd Cadw. Os ydynt, yna un o'r rhesymau nad yw'n benodol i unrhyw safle penodol yw eu bod eisiau gwybodaeth fanylach am y safle, sut roedd pobl yn byw a sut olwg oedd arno ar y pryd. Dywed rhai y byddent wedi hoffi gweld model o’r castell cyfan, nodwedd sydd gan rai safleoedd ar hyn o bryd.

“Roeddwn i’n disgwyl ychydig mwy o arwyddion a gwybodaeth, ychydig yn debycach i Gastell Caernarfon”
Teulu gyda phlant ifanc, Gogledd Orllewin Lloegr, Harlech

“Mwy o wybodaeth gyffredinol, does dim ots sut i ddod â’r castell yn fyw”
Grŵp o deulu a ffrindiau, Canolbarth Lloegr, Cas-gwent

## Mynd i fyny ac i lawr grisiau troellog cul

Er bod llawer o ymwelwyr yn mwynhau bod yn uchel ac edmygu'r golygfeydd, ochr arall y profiad hwn i rai yw cyrraedd i fyny yno yn y lle cyntaf. Mae rhai yn teimlo bod angen canllawiau mwy digonol (cadarn) yn hytrach na rhaff. Mae lifft wedi'i osod yng Nghaernarfon yn ddiweddar ond nid oedd hwn yn gweithio yn ystod y rhan fwyaf o'r gwaith maes ymchwil.

“Yr agwedd waethaf oedd anhygyrchedd i bobl hŷn a phobl anabl”
Grŵp wedi'i drefnu, De Orllewin Lloegr, Cas-gwent

“Mae'r grisiau'n ansicr”
Teulu gyda phlant ifanc, Gogledd Orllewin Lloegr, Harlech

## Biwmares

## Mwy o arwyddion

Dangosodd yr ymchwil arsylwadol ddiweddar ar gyfer Cadw fod ymwelwyr yn mynd i lawer o wahanol gyfeiriadau wrth ddod i mewn. Dywed rhai yr hoffent gael arweiniad cliriach.

“Mae angen arwydd ‘dechreuwch yma’”
Teulu o oedolion, Gogledd Cymru, Biwmares

## Caernarfon

## Mae angen mwy o oleuadau mewn rhai ystafelloedd

Er bod ymwelwyr yn gwerthfawrogi eu bod mewn castell, byddai rhai yn teimlo'n hapusach i gael goleuadau gwell yn rhai o'r ystafelloedd.

“Nid yw’r golau cystal mewn rhai ystafelloedd”
Ymwelydd unigol, Tsieina, Caernarfon

## Castell Coch

## Hygyrchedd

Teimla rhai na all yr anabl fwynhau Castell Coch yn ddigonol oherwydd bod angen dringo i fyny neu i lawr grisiau yn y rhan fwyaf o'r rhannau. Byddai rhai hefyd yn hoffi goleuadau gwell mewn mannau fel y grisiau yn mynd i lawr i'r islawr am resymau diogelwch.

> "Diogelwch yma yw'r agwedd leiaf pleserus, yn enwedig yn yr islawr. Yn ddealladwy mae angen iddo fod yn dywyll ond mae'r llawr hefyd yn anwastad. Syrthiodd un o'r plant a thorri ei thrwyn."
> Teulu gyda phlant ifanc, Llundain, Castell Coch

> "Os ydych chi'n anabl, nid yw'n lle i chi"
> Grŵp o deulu a ffrindiau, Canolbarth Lloegr, Castell Coch

## Cas-gwent

## Dim toiled

Nid oes toiled ar y safle yng Nghastell Cas-gwent. Mae'r un agosaf ar ochr arall y maes parcio, ond mae mynd yn ôl i mewn i'r castell ar ôl ei ddefnyddio yn golygu cerdded i fyny allt eithaf serth.

> "Does dim toiled ar y safle"
> Teulu gyda phlant ifanc, De Ddwyrain Cymru, Cas-gwent

## Angen mwy o wybodaeth wedi ei hanelu at oedolion

Er bod y gwelliant mewn dehongli ar gyfer plant yn cael ei werthfawrogi, mae rhai oedolion bellach yn dweud bod angen mwy ar eu cyfer nhw.

> "Mae'r byrddau gwybodaeth wedi'u hanelu at blant bach ac yn brin o fanylion. Dydyn nhw ddim yn ddigon addysgiadol i oedolion."
> Ymwelydd unigol, De Ddwyrain Cymru, Cas-gwent

## Conwy a Harlech

## Tebyg i safleoedd eraill

Mae gwelliannau a awgrymir yng Nghonwy a Harlech yn debyg i safleoedd eraill yn gyffredinol, sef y byddai mwy o wybodaeth a gwell hygyrchedd yn cael eu gwerthfawrogi.

> “Does dim digon o wybodaeth ar y byrddau”
> Grŵp o ffrindiau, Gogledd Orllewin Lloegr, Conwy

## Rhaglan

## Does dim caffi

Nid oes gan y rhan fwyaf o safleoedd Cadw gaffi, ond mae Rhaglan yn sefyll allan fel safle a fyddai’n elwa’n fawr o un gan fod y safle’n eithaf anghysbell.

> “Efallai y byddai’n braf cael ychydig mwy ar y safle wrth ymyl y castell fel caffi neu flodau ar werth ac ati fel sydd gan safleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn aml”
> Grŵp o ffrindiau, De Orllewin Lloegr, Rhaglan

## Taith fwdlyd i'r toiledau

Mae cyrraedd y toiledau yn Rhaglan yn golygu cerdded ar draws glaswellt. Ar yr adeg hon o'r flwyddyn, mae'n bosibl iawn y bydd y ddaear yn fwdlyd, ac nid yw rhai ymwelwyr yn gwerthfawrogi cael eu hesgidiau'n fudr.

> “Y rhan waethaf oedd gorfod cerdded ar draws gwair i’r tŷ bach. Mae'n gas gen i gael fy esgidiau'n fwdlyd."
> Cwpl, De Ddwyrain Lloegr, Rhaglan

## Tyndyrn


## Adeiladu

Mae angen i'r gwaith cadwraeth yn Nhyndyrn ddigwydd ond mae'n amharu ar yr ymweliad i rai. Rydym yn trafod hyn ymhellach yn ddiweddarach o dan C16 a C22.

“Mae’n siomedig methu gweld yr abaty i gyd oherwydd y gwaith adeiladu. Wnaethon ni ddim sylweddoli nes i ni gyrraedd yma.”
Teulu gyda phlant ifanc, De Orllewin Lloegr, Tyndyrn

## Caffi ar y safle

**Ffigur 13: C14 (Castell Coch, Caernarfon a Harlech) "Sut mae neu sut fydd y caffi ar y safle yn effeithio ar ymweliad arferol â safle fel hwn?"**




Gofynnwyd C14 i ymwelwyr yng Nghastell Coch, Caernarfon a Harlech


## Daw llawer yn disgwyl caffi

Castell Coch, Caernarfon a Harlech yw'r tri safle yn y sampl sydd â chaffi. Mae tua hanner (49%) yr ymwelwyr â'r safleoedd hyn yn troi i fyny yn disgwyl gweld un a'i ddefnyddio. Mae'r gyfran hon yn llawer uwch yng Nghastell Coch (70%) a Harlech (70%) o gymharu â Chaernarfon (27%), lle mae llawer o ymwelwyr (60%) yn disgrifio caffi fel 'braf i'w gael'.

Mae’r disgwyliadau o ddod i ddefnyddio caffi yn uwch (52%) ymhlith partïon o oedolion yn unig na theuluoedd â phlant (41%).

## Posibilrwydd o gaffi

**Ffigur 14: C15 (Castell Coch, Caernarfon a Harlech wedi'u heithrio) "Sut y gallai caffi ar y safle effeithio ar ymweliad arferol â safle fel hwn?"**




Gofynnwyd C15 i bob safle ac eithrio Castell Coch, Caernarfon a Harlech

## Gallai caffis ar y safle wella'r profiad i tua hanner yr ymwelwyr

Mewn safleoedd heb gaffi ar y safle, mae'r ymatebion i'r posibilrwydd o gael un wedi'u rhannu'n fras 50/50 rhwng y rhai sy'n teimlo y gallai wella'r profiad a'r rhai nad oes ei angen arnynt. Mae’r galwadau cryfaf am gaffi yn:

- Rhaglan, (dywedodd 73% y byddai/efallai y byddai wedi gwella’r profiad)
- Cas-gwent (54%)

Mae Castell Rhaglan yn y lleoliad mwyaf anghysbell o ganolfannau trefol gyda chaffis allan o'r pum safle dan sylw.

> “Dw i’n ysu am goffi gan ei fod yn eitha’ oer”
> Teulu o oedolion, De Orllewin Cymru, Rhaglan

## Amrywiad yn ôl math o ymwelydd


Mae’r mathau canlynol o ymwelwyr yn fwy tebygol o deimlo y byddai/efallai y byddai caffi ar y safle wedi gwella eu profiad:

- Ymwelwyr ar ddiwrnodau'r wythnos yn ystod y tymor (58%)
- Preswylwyr Cymru (56%)

Nid yw'r atebion yn amrywio'n arwyddocaol yn ôl y math o barti.

## Effeithiau adeiladu ar brofiad

**Ffigur 15: C16 (Tyndyrn) "Sut, os o gwbl, mae'r gwaith adeiladu ar y safle wedi effeithio ar eich profiad heddiw?"**




Gofynnwyd C16 i ymwelwyr yn Nhyndyrn

## Ychydig o drueni am y sgaffaldiau, ond llawer o ddealltwriaeth wedi'i ddangos

Uchafbwynt Abaty Tyndyrn yw rhan yr eglwys o'r safle. Mae rhan ohoni ar gau ar hyn o bryd tra bod sgaffaldiau yn sefyll ar gyfer gwaith cadwraeth.

Dywed rhai ymwelwyr fod hyn wedi effeithio ar eu profiad, ond mae sylwadau yn dangos yn gyffredinol eu bod yn deall bod angen gwneud gwaith cadwraeth.


> "Mae yna waith yn mynd ymlaen yma ond dwi'n deall bod yn rhaid ei wneud"
> Ymwelydd unigol, UDA, Tyndyrn



Ardal yr eglwys gyda gwaith cadwraeth a phaneli gwybodaeth yn Nhyndyrn

## Paneli cadwraeth

**Ffigur 16: C22 (Tyndyrn) "Sut ydych chi'n teimlo am y paneli gwybodaeth cadwraeth?"**




Gofynnwyd C22 i ymwelwyr yn Nhyndyrn


## Paneli gwybodaeth addysgiadol iawn

Mae gan Dyndyrn ddwy set o baneli gwybodaeth cadwraeth, un set yn agos at lwybr sy'n arwain o fynedfa'r safle a'r ail set y tu mewn i'r eglwys. Mae'r paneli'n egluro'r gwaith cadwraeth sy'n cael ei wneud a'r rhesymau. Mae ymwelwyr yn tueddu i sylwi arnynt a'u cael yn addysgiadol iawn. Mae'n bosibl bod presenoldeb ac ansawdd y paneli yn lleddfu rhywfaint ar y siom.

> "Rwy'n hoffi'r byrddau gwybodaeth a'r hanes, ynghyd â'r wybodaeth cadwraeth. Mae'n hanes a'r dyfodol o un pen i'r llall."
> Cwpl, Canolbarth Lloegr, Tyndyrn

## Amser wedi'i dreulio

**Ffigur 17: C17 "Faint wnaethoch chi dreulio / ydych chi'n disgwyl ei dreulio yn y castell (neu'r abaty) heddiw?"**
**Tua. amser cymedrig a ddangosir mewn oriau**




## 1.5 awr o amser wedi'i dreulio ar gyfartaledd


Ar gyfartaledd, mae ymwelwyr â safleoedd Cadw yn yr hydref yn treulio neu'n bwriadu treulio 1.5 awr yno, yr un canfyddiad ag yn arolwg haf 2022.

Mae Caernarfon yn amlwg fel un sy'n denu amseroedd aros hwy na'r cyfartaledd (1.9 awr), tra bod ymweliadau â Thyndyrn (1.1 awr ar gyfartaledd) yn nodweddiadol ychydig yn fyrrach nag mewn safleoedd eraill.

Nid yw'r canlyniadau'n amrywio'n arwyddocaol yn ôl amseriad yr ymweliad neu'r math o barti.

## Byrddau gwybodaeth

**Ffigur 18: C18 "Gan feddwl am y paneli gwybodaeth o amgylch y safle sy'n eich helpu i ddeall ei hanes a'i ddyluniad, pa rai o'r datganiadau canlynol ydych chi'n cytuno fwyaf a nhw?"**




## Lefel dda o wybodaeth yn gyffredinol


Yn gyffredinol, teimlir bod lefel y wybodaeth a ddarperir ar ffurf byrddau ar safleoedd Cadw yn ddigonol. Ceir amrywiad fesul safle, er bod y gyfran sy'n dweud nad oes digon bob amser yn y lleiafrif. Mae'r gyfran a atebodd 'Mae digon o fyrddau gwybodaeth, felly rwy'n deall y safle'n dda' ar ei uchaf (84%) yng Nghaernarfon.

Mae'r gyfran sy'n ateb 'Rwyf wedi / byddaf yn darllen y wybodaeth ar y byrddau, ond nid oes digon ohonynt' yn weddol gyson fesul safle, ond yn amlwg yn is (ac felly'r ymwelwyr yn fwy bodlon gyda'r wybodaeth) yng Nghaernarfon (4%) a Chastell Coch (8%). Efallai bod argaeledd teithiau sain wedi dylanwadu ar ganlyniad y cwestiwn hwn os yw ymwelwyr yn teimlo eu bod eisoes yn cael digon o wybodaeth o hynny. Mae Cas-gwent yn cynnig teithiau sain, ond nid oedd y rhain bob amser yn gweithio yn ystod cyfnod y gwaith maes ymchwil.

Nid yw'r atebion yn amrywio'n arwyddocaol yn ôl y math o barti neu amseriad yr ymweliad.

## Gosodiadau dehongli

**Ffigur 19: C19 " ... sut ydych chi'n teimlo am y ffyrdd eraill y caiff gwybodaeth ei rhannu ar y safle neu sut mae'r safle yn cael ei dehongli?"**




## Adborth cadarnhaol

Dywed y mwyafrif (69%) o ymwelwyr eu bod yn hoff iawn o'r gosodiadau dehongli, gyda rhai hyd yn oed yn dweud y dylai fod mwy ohonynt.


Mae Caernarfon a Chastell Coch yn sefyll allan yma. Mae 85% o'r ymwelwyr â Chastell Coch ac 84% o'r ymwelwyr â Chaernarfon yn dweud eu bod 'yn hoff iawn o'r gosodiadau dehongli gwahanol ac mae digon ohonynt o gwmpas y safle'. Mae hyn yn llawer uwch nag mewn safleoedd eraill, lle gwerthfawrogir y gosodiadau ond byddai mwy yn cael eu croesawu.

> "Y rhan orau oedd gweld rhai arteffactau ychwanegol, y gwisgoedd, y byrddau, y teganau, yr ystafelloedd bellach yn mynegi eu hunain, gwisg y forwyn, gwisg y bwtler, y platiau"
> Grŵp o ffrindiau, De Ddwyrain Cymru, Rhaglan

Er bod yr atebion yn amrywio'n arwyddocaol yn ôl safle, nid ydynt yn amrywio'n arwyddocaol yn ôl y math o barti neu amseriad yr ymweliad.

## Diddordeb mewn ap Cadw

**Ffigur 20: C20 "A fyddech chi'n ystyried lawrlwytho ap i'ch ffôn i helpu i gynllunio unrhyw ymweliadau ag atyniadau Cadw yn y dyfodol a gwella'ch profiad ar y safle?"**




## Safbwyntiau rhanedig ar ap safle Cadw


Mae safbwyntiau ar ap safle Cadw wedi'u rhannu'n fras yn 50/50 rhwng bod â diddordeb a pheidio â bod â diddordeb. O ystyried nifer yr ymwelwyr ar draws y safleoedd, mae'n ymddangos y byddai ap yn cael ei ddefnyddio gan ddigon o ymwelwyr i fod yn werth chweil ei ddatblygu.

Mae'r cyfrannau uchaf o ymwelwyr sy'n mynegi diddordeb i'w cael yn/ymhlith:

- Harlech (58%)
- Teuluoedd â phlant (51%)

## Nodweddion ap Cadw

**Ffigur 21: C21 "Pa un o'r isod fyddai gennych chi ddiddordeb mewn ei ddefnyddio?"**




Mae C21 wedi cael ei ofyn i ymwelwyr wnaeth ateb 'byddwn' i C20 (diddordeb yn yr ap)


## Llawer o nodweddion o ddiddordeb posibl

Ymhlith y rhai sydd â diddordeb mewn ap safle Cadw, mae nifer o nodweddion a fyddai'n cael eu defnyddio pe bai ar gael. Mae canllawiau sain ar frig y rhestr. Nid yw'r rhain ar gael ar hyn o bryd yn rhai o safleoedd Cadw, ond mae'r ateb hwn yn dal i gael ei roi gan ymwelwyr mewn safleoedd sy'n eu darparu.

Mae'r atebion yn weddol gyson ar draws gwahanol safleoedd a mathau o ymwelwyr. Nid yw 'gemau rhyngweithiol i'w chwarae ar y safle' yn sgorio'n uchel ar y cyfan, ond byddai hyn yn cael ei ystyried gan 40% o deuluoedd â phlant ifanc.

## Gwella'r profiad

**Ffigur 22: C27 (Tyndyrn) "Sut ydych chi'n teimlo am y paneli gwybodaeth cadwraeth?"**




## Mae teithiau a digwyddiadau ar frig y syniadau ar gyfer gwella'r profiad

Mae yna nifer o wahanol syniadau ar gyfer gwella profiad ymwelwyr yn safleoedd Cadw, y mae rhai ohonynt ar gael ar hyn o bryd mewn rhai safleoedd ond nid eraill.

Mae'r tri ateb uchaf uchod i gyd yn ymwneud â theithiau, boed yn rhai sain neu'n cael eu harwain gan berson. Mae canllawiau sain yn sefyll allan fel yr ateb cyffredinol clir os yw'r gyfran sy'n rhoi'r ateb hwn (34%) wedi'i hynysu i'r safleoedd nad ydynt yn eu cynnig ar hyn o bryd yn unig.

Mae canllawiau sain yn cael eu defnyddio llawer a'u gwerthfawrogi mewn safleoedd sydd â nhw.

> "Yr agweddau mwyaf pleserus yw'r canllaw sain a'r gosodiadau celf"
> Ymwelydd unigol, Gwlad Belg, Caernarfon

# 6. Goblygiadau i Cadw

## Cydbwysedd rhwng gorwerthu a thanwerthu safle

Mae cynifer o ymwelwyr â safleoedd Cadw yn cael eu synnu ar yr ochr orau gan yr hyn y maent yn ei ddarganfod: castell sy'n fwy o faint, yn fwy hygyrch ac yn fwy cyflawn nag yr oeddent yn ei ddisgwyl.

Mewn rhai ffyrdd, mae'n braf gweld y rhagorir ar gymaint o ddisgwyliadau a bod cyn lleied o ymwelwyr yn mynd i ffwrdd yn teimlo'n siomedig. Fodd bynnag, os daw rhai ymwelwyr heb ddisgwyl fawr ddim, neu os nad ydynt yn gwybod beth i'w ddisgwyl, faint o ddarpar ymwelwyr sydd â'r un disgwyliadau isel ac felly ddim yn dod?

Er y gall profiad atyniad gael ei orwerthu ac felly nad yw'n cwrdd â'r disgwyliadau, mae hefyd yn bwysig nad yw'r profiad yn cael ei danwerthu, gan arwain at golli ymwelwyr o bosibl. Gallai mwy o luniau a fideos y gellir eu canfod yn hawdd ar Google sy'n dangos pethau i'w gwneud ar y gwefannau helpu.

## Llawer o resymau da i ymweld yn yr hydref

Er nad yw twristiaeth i Gymru yn yr hydref mor uchel ag yn yr haf, mae llawer o dwristiaid o gwmpas o hyd sy'n chwilio am leoedd i ymweld â nhw, fel y mae llawer o ymwelwyr dydd. Y prif gymhelliant dros ymweld o hyd yw diddordeb mewn cestyll / safleoedd hanesyddol, fel sy'n wir yn yr haf.

Mae rhai ymwelwyr yn gwerthfawrogi gallu mwynhau safle mewn heddwch yr adeg hon o'r flwyddyn, yn enwedig os ydynt yn ymweld yn ystod yr wythnos.

## Sylweddolir ar fuddsoddiad mewn dehongli

Amlygodd yr arolwg ymwelwyr blaenorol yn haf 2022 wendidau yn y ddarpariaeth ddehongli, yn enwedig yn Nhyndyrn a Chas gwent. Ers hynny mae Cadw wedi buddsoddi mewn mwy o gynnwys o ganlyniad, ac mae ymwelwyr yn gwerthfawrogi hyn.

Mae'r ymchwil arsylwi diweddar ar gyfer Cadw wedi rhoi manylion ynghylch i ba raddau y darllenir gwybodaeth ysgrifenedig a faint y gwerthfawrogir ffurfiau arall ar ddehongli i lywio buddsoddiad yn y dyfodol.

## Diddordeb mewn ap

Mae rhywfaint o ddiddordeb mewn ap safle Cadw. Gallai datblygu un fynd i'r afael â nifer o anghenion, gan gynnwys yr awydd am deithiau sain a gwybodaeth ysgrifenedig fanylach am y safle.

## Caffi yn Rhaglan?

Mae Cadw yn parhau i bwyso a mesur cost yn erbyn budd a materion eraill o ran darparu caffi ar y safle. Ymddengys mai yn Rhaglan y mae'r angen cryfaf oherwydd ei leoliad mwy anghysbell.